

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 7.00 NOS FAWRTH 30 HYDREF 2018.

PRESENNOL: Cynghorydd - H.B. Rowlands, Cadeirydd	
Cynghorwyr: S. Conrad-Smith, A. D. McCann, Geoff McGinn, P. M. Parry, E. Roberts, D. Rhys Thomas J.P.	
1.	YMDDIHEURIADAU: – Cynghorydd J. Abbott MBE, C. McDermott, S. Magee, K. Roberts a D. A. Williams.
2.	DATGANIAD O DDIDDORDEB – Cyng. Paula Parry eitem 13.8 cais cynllunio. 46C505.
3.	COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL. Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion 9fed a 25ain o Fedi 2018.
4.	MATERION YN CODI O'R COFNODION:
4.1	Priffyrdd Roedd y Cyngor Sir yn gobeithio ail-wynebu Lôn St Ffraid (B4545) rhwng y Swyddfa'r Post a'r gyffordd ar gyfer Lôn Trearddur yn y flwyddyn newydd ac o'r fan honno ymlaen at fynedfa i Hunters Chase y flwyddyn ganlynol. Yn y cyfamser byddai unrhyw dyllau yn cael eu llenwi gan eu gang cymunedol.
5.	GOHEBIAETH - Cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:
5.1	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith
5.2	Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned - cofnodion.
5.3	Ymgyrch Pylonau Ynys Môn - cytunwyd y dylai Cyngor Cymuned Trearddur gefnogi hyn.
5.4	Un Llais Cymru - sesiynau hyfforddiant Llangefni.
5.5	Cyfarfod Cyhoeddus Band Eang Ynys Môn 29.11.2018 - a drefnwyd gan Gyngor Cymuned Bodedern. Cyng Bill Rowlands am fynd i hwn.
5.6	Gorchymyn Traffig Arfaethedig - Lleoliadau ym Mae Trearddur. Nodwyd bod y cynigion yn unol â'r rhai a gytunwyd gyda'r Cyngor Cymuned yn dilyn cyfarfod safle gyda'r Uwch Beiriannydd (Traffig a Pharcio)
5.7	Bwletin Un Llais Cymru - Hydref 2018. Tynnwyd sylw pellach at y lwfansau sy'n daladwy i'r aelodau.
6.	SAFLE HAMDDEN Roedd Swyddogion y Cyngor wedi gwrthod mynychu cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned. Bydd rhaid i'r Cyngor Sir symud ymlaen â champau cyfreithiol yn erbyn y perchennog gan ei fod wedi methu â g ymateb i nifer o lythyrau gan eu cyfreithwyr allanol ynghylch

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 7.00 NOS FAWRTH 30 HYDREF 2018.

	aseiniad y brydles. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Prisio (Ystadau) nad oedd unrhyw gostau cyfreithiol i'r Cyngor Cymuned ar hyn o bryd.
7.	MAES CHWARAE Roedd Cynrychiolwyr y Maes Chwarae i fod i gwrdd â'r cynrychiolydd o Playdale am 3.30pm ar 8fed Tachwedd a gofynnwyd am ddyfynbrisiau gan Creative Play UK a G.L. Jones Playgrounds. Roedd hi'n annhebygol y byddai'r arwynebau diogelwch presennol yn addas i offer newydd a byddai'n rhaid ystyried yr amser gorau i dynnu'r hen offer. Roedd y clerwr wedi cael pris ar gyfer y giât fetel i'r safle hamdden a cynigodd Cyng. Eric Roberts i'w nhol a'i gosod.
8.	ADRODDIADAU CYNGHORWYR
8.1	Cyng. Bill Rowlands Yn rhoi adroddiad o'r cyfarfod y 'Citizens Advice Bureau' a fynychodd ar 25.10. 2018.
8.2	Cyng. Paula Parry Roedd trigolion lleol yn pryderu am y newidiadau a allai fod yn digwydd yn y Clwb Hwyllo. Penderfynwyd gwneud ymholiadau â Swyddogion Trwyddedu CSYM.
8.3	Cyng. Eric Roberts Hysbyswyd Aelodau bod Pwyllgor Rheoli Neuadd y Pentref yn gobeithio ail-wynebu rhan o'r maes parcio, gosod diffibriliwr allanol a chael band eang i'r adeilad. Dywedodd hefyd fod y lamp allanol yn ddiffygiol, bydd rhaid gofyn i CSYM rhoi sylw iddi os na allent ei chael i weithio. Roedd hefyd wedi cael gwahoddiad i fynychu a gofyn cwestiynau i'r panel ar raglen BBC Radio Cymru - HAWL I HOLI a ymwelodd â Thraeth Trearddur ar - Dydd Llun, 29 Hydref. Roedd y pynciau i'w trafod yn cynnwys y toriadau mewn addysg, effaith Brexit ar Borth Caergybi, Wylfa B a chynigion y Grid Cenedlaethol i godi ail res o beilonau ar draws Ynys.
8.4	Cyng. Dafydd Rhys Thomas Dywedodd bod CSYM yn mynd allan i ymgynghori ar y gyllideb 2019/20 yn fuan. Roeddent yn rhagweld diffyg o £ 800,000 a bydd rhan fwyaf o Gynghorau Cymru yn debygol o orfod codi eu treth gyngor i gynnal gwasanaethau.
8.5	Cyng. Anwen McCann Roedd yn pryderus fod y meinciau a'r llochesi fysiau angen sylw a bod rhai o'r llwybrau heb eu torri eleni. Roedd y llwybr troed i'r Lee yn arbennig o ddrwg. Cytunodd Cyng. Eric Roberts drafod hyn gyda'r contractwr. Dywedodd hefyd nad oedd yr holl arian oedd angen ar gyfer y Cynllun Partneriaeth Tirwedd (Prosiect Treftadaeth) wedi ei ganiatáu.

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDY YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 7.00 NOS FAWRTH 30 HYDREF 2018.

9.	CYLLID, GWEINYDDU A RHEOLI RISG Cyflwynwyd a nodwyd: Adroddiad am y cyfnod 1.4.2018 i 30.09.2018 ynghyd â chysoniad banc a Chyfrifon Banc. Trafodwyd cyfrifon 2018/19 gan y Pwyllgor Cyllid ac roedd yr holl wariant cyffredinol darged. Dylid parhau i neilltuo arian ar gyfer trosglwyddo'r Safle Hamdden ond byddai angen swm sylweddol o'r arian a ddelir yn y cyfrif cyfredol i brynu offer chwarae newydd. Byddai angen trafodaeth bellach unwaith bydd y dyfynbrisiau wedi eu derbyn.			
10.	TALIADAU - Penderfynwyd: Cadarnhau a thalu'r canlynol:-			
	Cyflog Hydref	£530.85	K. Roberts	£150.00
	CSYM	£37.50	Un Llais Cymru	£80.00
11.	UNRHYW FATER BRYN ARALL			
	Angen gofyn i'r RSPB am finiau yn y maes parcio wrth y Range			
12.	PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO			
12.1	46C581B - Gorselands, Ffordd Penrallt Road, Bae Trearddur - caniatâu.			
12.2	46 C619B Craig Adlais, Lôn Garreg Fawr, Bae Trearddur - caniatâu.			
12.3	46C584B - Rhianfa, Lôn St Ffraid, Bae Trearddur - caniatâu.			
	46C168E/FR Trearddur House, Trearddur Court, Bae Trearddur – gwrthodwyd			
13.	CEISIADAU CYNLLUNIO			
13.1	46C572C - Glan Traeth, Lon St Ffraid, Bae Trearddur Bay. Cais llawn ar gyfer addasu tri o adeiladau amaethyddol segur i ddibenion cyflogaeth a defnydd preswyl – angen sicrhau bod system carffosiaeth digonnoel are eu cyfer.			
13.2	46C335A Y Nyth, Ravenspoint Road, Trearddur Bay. Cais llawn ar gyfer newid storfa cwch presennol i lety gwyliau, addasu ag ehangu sydd yn cynnwys 2 falconi – dim gwrthwynebiad.			
13.3	46C271E Porth House, Trearddur Bay. Cais llawn ar gyfer codi storfa gychod ategol ('lean to') – dim gwrthwynebiad.			
13.4	46C42F/ENF Glasfryn, Ffordd Ravenspoint Road, Trearddur Bay. Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw lefelau tir codedig a'r ardal decio yn y cefn – dim gwrthwynebiad.			
13.5	46C622/ENF - Y Borth Porthdafarch Road, Holyhead. Cais llawn ar gyfer creu estyniad i'r cwrtel ynghyd a chadw'r adeilad fel garej			

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 7.00 NOS FAWRTH 30 HYDREF 2018.

	ddomestig a swyddfa - gofyn am ymweliad â'r safle, ymddengys bod yr ymgeisydd yn anwybyddu rheolau cynllunio ac yn gwneud llawer mwy o ddatblygiad nag y gellir ei weld o'r ceisiadau cynllunio.
13.6	46C622A/ENF - Y Borth Porthdafarch Road, Holyhead. Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw sied amaethyddol ynghyd â gwneud addasiadau i fwnd sgrinio - (fel 13.5) gofyn am ymweliad â'r safle.
13.7	46C451B Graig Eithin, Lon St Ffraid, Bae Trearddur Bay. Cais ôl-weithredol ar gyfer newid defnydd yr adeilad presennol i fod yn uned gwyliau i'w gosod ynghyd â manylion draenio arfaethedig – roedd pryderon bod y cais gwreiddiol 46C451A ar gyfer dymchwel y tŷ cwch presennol a chodi modurdy wedi'i gam-gynrychioli. Ni fu erioed ddrws modurdy ar yr adeilad a godwyd a gosodwyd drws a ffenestri gwydr dwbl o'r cychwyn. Nodir hefyd bod sied fawr wedi'i chodi y tu ôl i'r adeilad nad oedd yn ymddangos ar y cynlluniau a gyflwynwyd, gofynnwyd am ymweliad â'r safle.
13.8	Gadawodd Cyng. Paula Parry y cyfarfod cyn i hwn gael ei drafod: 46C505 Avilion, Bae Trearddur. Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yr anecs – dim gwrthwynebiad.
14	CYFARFOD NESAF – 27 TACHWEDD 2018